Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd

anelúnuchel

Dod â Chymunedau i Gyswllt â Dysgu

Canllawiau i Bartneriaid

YR UNDEB EWROPEAIDD
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
AMCAN 1
EUROPEAN UNION
European Social Fund
OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Mae Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd yn bartneriaeth unigryw rhwng Addysg Uwch a'r sector Gwirfoddol yn Ardal y Cymoedd a Gorllewin Cymru sy'n gweithio at ddatblygu cyfleoedd priodol yn y gymuned i bobl gael dysgu gydol eu hoes. Nod y bartneriaeth yw ehangu'r nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn addysg uwch trwy ddod â dysg yn agosach at eu cartrefi a'i wneud yn fwy perthnasol i bob rhan o'n cymunedau.

Partneriaid sy'n Cyfrannu at y Canllawiau hyn

Anturiaeth Dyffryn Aman
Ymddiriedolaeth Datblygu Blaenymaes, Portmead a Phenplas
Strategaeth Cymuned Bryncynon
Ymddiriedolaeth Datblygu Cwmni Clydach
Gweithdy Dove, Banwen
Canolfan Hyfforddi Glyn Nedd
Adfywio Gurnos a Galon Uchaf
Menter Cwm Gwendraeth
Partneriaeth Menter Penywaun
Partneriaeth Penrhys, Rhondda
Rhwydwaith Dysgu Rise
Canolfan Tele ac Ysgol Fusnes, Porth
Ymddiriedolaeth Datblygu Tredegar, Prosiect Catapult
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Prifysgol Morgannwg
Prifysgol Cymru, Casnewydd
Prifysgol Cymru, Abertawe
Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru

CUV Partnership
c/o Dept of Adult and Continuing Education
University of Wales Swansea
Singleton Park, Swansea SA2 8PP

Neges o Gymorth gan
Grŵp Cynllunio Partneriaeth PGC

"Mae dysgu gydol oes wedi tyfu'n gawr addysgol, ac mae'n ymddangos bron ym mhob menter polisi i ehangu mynediad. I wireddu hyn, mae'n rhaid i brifysgolion a mudiadau cymunedol osgoi partneriaethau diystyr; yn hytrach rhaid iddynt geisio rhannu eu hadnoddau, eu hathrawon a'u dysgwyr yn wirioneddol. Mae partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd yn gwneud hynny'n union trwy ddyfeisio cyrsiau dychmygus, llunio strategaethau asesu gwahanol, a chroesawu pobl na fyddent fel arall wedi dod i gyswllt â dysgu. Yn y llawlyfr hwn cynigir cyfres o egwyddorion a chanllawiau gwerthfawr. Maen nhw'n cynnig model o arfer da ac yn atgoffa pawb yn y maes wrth hyrwyddo ein gwerthoedd addysgol craidd: dysgu ar gyfer bywyd, dysgu ar gyfer gwaith, dysgu ar gyfer pawb."

Yr Athro Colin Trotman - Pennaeth Adran Addysg Barhaus Oedolion Prifysgol Cymru Abertawe
Yr Athro Danny Saunders - Pennaeth Canolfan Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Morgannwg
Mrs Jan MacCallum - Rheolwr Canolfan Hyfforddi Glyn Nedd
Mr Viv Davies - Pennaeth Canolfan Dysgu Cymunedol a Gydol Oes, Prifysgol Cymru Casnewydd
Dr Heather Graham - Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru

Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd

Anelu'n **Uchel**

Dod â Chymunedau i Gyswllt â Dysgu - Canllawiau i Bartneriaid

Mae Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd (PPGC) wedi ymrwymo i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu'n barhaus er mwyn helpu ehangu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn dysgu a chefnogi'r dilyniant at addysg uwch. Mae PPGC yn gweithio'n strategol i gael y mwyaf allan o adnoddau er mwyn sicrhau dysgu cymunedol o ansawdd uchel ar draws ardaloedd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Mae Partneriaeth PGC yn hybu manteision dysgu cymunedol yn gryf ac mae'n anelu at ddatblygu cyfleoedd dysgu cymunedol hygyrch ar bob lefel, o lefel anffurfiol i lefel gradd, i gwrdd ag anghenion y gymuned. Fe all dysgu a datblygu sgiliau a phrofiad sicrhau nifer o fanteision cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Mae'n bwysig, felly, nid yn unig sicrhau bod pobl yn ymwybodol o gyfleoedd dysgu lleol ond hefyd datblygu ymagweddau newydd sy'n rhoi'r pŵer i unigolion i gymryd rhan ac i fanteisio ar gyfleoedd o'r fath. Mae hybu dysgu cymunedol yn effeithiol, mewn gwirionedd, yn golygu hwyluso cyfranogiad y gymuned a galluogi'r gymuned i ddod i gyswllt.

Datblygwyd y canllawiau hyn, sy'n ymdrin ag arfer da wrth alluogi cymunedau i ddod i gyswllt â dysgu, trwy broses gydweithredol ac maen nhw'n adlewyrchu arferion a phrofiad mudiadau partner. Maen nhw'n adeiladu ar y gwerthoedd a'r egwyddorion a nodwyd yng Nghanllawiau Arfer Da Partneriaeth PGC, 'Anelu'n Uchel' * a chânt eu cyflwyno fel cyfraniad at y broses o wella ansawdd. Nid yw'r ddogfen hon yn ddatganiad hollgynhwysol a chroesewir enghreifftiau pellach o arfer da.

* Am wybodaeth ar ganllawiau arfer da eraill yng nghyfres 'Anelu'n Uwch' Partneriaeth PGC, ewch at y wefan www.cuv.org.uk

Y Cyd-Destun Hanesyddol

Dros nifer o flynyddoedd yn ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gwelwyd hanes cryf o wirfoddoli a gweithredu cymunedol a thraddodiad positif o ddysgu ymhlith oedolion. Mae Partneriaeth PGC yn dathlu'r hanes hwn ac yn hybu modelau llwyddiannus o gyfranogiad a ddefnyddiwyd ers meitin gan fudiadau adfywio a dysgu cymunedol, fel Canolfan Hyfforddi Glyn Nedd, Gweithdy Dove, Anturiaeth Dyffryn Aman a Strategaeth Bryncynon..

Mae'n ymagwedd sy'n canolbwyntio ar werthfawrogi pobl, annog eu dysg a'u datblygiad a rhoi'r pŵer iddynt i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd. Mae mudiadau adfywio cymunedol o'r fath yn helpu sicrhau bod cymunedau yn llefydd gwell i fyw ynddynt ac maen nhw'n rhoi llwyfan i bobl gael cyfrannu at gynaladwyedd eu hardaloedd lleol yn y dyfodol.

Gwerthoedd a Hawliau a Rennir

Cred Partneriaeth PGC fod dysgu cymunedol o ansawdd da yn hawl sylfaenol.

Rydyn ni'n cefnogi ymagweddau dysgu cymunedol sy'n:

- **Hygyrch** - wedi eu cyflwyno mewn lleoliadau lleol a hefyd yn hygyrch o ran dulliau cyfathrebu ac iaith, ymagweddau dysgu, cynnwys cwricwlaidd, y dechnoleg sydd ar gael, mynediad corfforol at adeiladau ac amserau'r cyrsiau
- **Cyfranogol** - galluogi aelodau'r gymuned a dysgwyr i fwydo datblygiadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau fel cynllunio'r cwricwlwm
- **Cynaliadwy** - cael y mwyaf allan o'r adnoddau sydd ar gael yn lleol trwy weithio mewn partneriaeth gyda budd-ddalwyr cymunedol a'r amrywiaeth o ddarparwyr
- **Cefnogol** - darparu amgylcheddau dysgu defnyddiol gyda gwasanaethau a chyfleusterau fel staff sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant perthnasol, mentora, canllawiau, gofal plant, help gyda ffioedd, adnoddau llyfrgell a TG
- **Cynhwysol** - gwerthfawrogi amrywioldeb a hybu cydraddoldeb anabledd; herio hiliaeth, rhywiaeth a rhagdybiaethau stereoteipaidd eraill ynghylch anghenion dysgwyr. Hefyd, rhoi sylw i ddiffyg hyder trwy gynnig amgylcheddau anfygythiol sy'n hwylus i'r defnyddiwr gydag adnoddau ychwanegol fel crèche a chaffis cymunedol
- **Perthnasol** - cynnig dysgu sy'n cwrdd ag anghenion y gymuned a'r unigolyn ac yn cydnabod y sgiliau sydd gan bobl yn barod. Hefyd, ystyried y farchnad swyddi leol a phrinder sgiliau
- **Dilyniadol** - dysgu sy'n arloesol ac yn dathlu cyrhaeddiad; datblygu dulliau asesu positif a llwybrau dilyniant hygyrch

Mae Partneriaeth PGC wedi canfod 3 model posib ar gyfer dod â chymunedau i gyswllt â dysgu:

1. Y gymuned sy'n penderfynu pa gyrsiau sydd eu hangen ac yn gweithio i ddenu'r dysgu perthnasol gan y darparwyr dysgu / rhwydwaith dysgu perthnasol neu'r bartneriaeth
2. Darparwr Dysg yn gweithio mewn partneriaeth gyda mudiadau cymunedol ac yn trafod y cyrsiau i'w trosglwyddo
3. Darparwr Dysg yn mynd at y gymuned ac yn penderfynu ar drosglwyddiad y cyrsiau

Dyma fathau o weithgarwch datblygu sy'n gallu cymryd lle mewn dysgu cymunedol. Fe all denu dysgwyr o'r gymuned olygu un o'r ymagweddau hyn, neu gyfuniad ohonynt. Fe fydd sefyllfaoedd gwahanol yn golygu ymagweddau gwahanol gyda lefelau amrywiol o drafodaeth a rheolaeth gan y gymuned neu'r darparwr. Mae'n bwysig bod yn frocer gonest a chael ymagwedd realistig at yr hyn y gellir ei gyflawni.

Budd-ddalwyr Pwysig

Mae'n holl bwysig cydnabod yr amrywiaeth o fudd-ddalwyr wrth weithio i ddod â chymunedau i gyswllt â dysgu.
Mae'r rhain yn cynnwys budd-ddalwyr mewnol ac allanol fel:

Dysgwyr
Mudiadau cymunedol
Darparwyr dysg
Staff/Gwirfoddolwyr
Tiwtoriaid
Noddwyr
Y rheiny sy'n llunio polisïau

Dod i gyswllt â Budd-ddalwyr

Mae Partneriaeth PGC yn credu bod yna fantais wrth gydweithio i hybu dysgu cymunedol ar lefel unigol, lefel y mudiad, cymunedol a chenedlaethol. Wrth symud yr agenda hwn yn ei flaen, fe fydd yn holl bwysig dod i gyswllt â'r holl fudd-ddalwyr, o ddysgwyr i'r rheiny sy'n llunio polisïau, er mwyn cynyddu'r ddealltwriaeth o werth ymagwedd dysgu cymunedol sy'n hybu hygyrchedd, hyblygrwydd a phŵer ar gyfer y dysgwr. Wrth hybu gwerthoedd a rennir, fel 'dod â'r dysgu yn nes adref', ymateb i anghenion y gymuned a'r dysgwr a chaniatáu partneriaeth gyfartal gyda chymunedau, fe allwn sefydlu partneriaethau trafod a fydd yn gallu helpu sicrhau newid - o ran darparu dysgu ac o ran y galw amdano.

Pethau sy'n rhwystro dysgwyr rhag dysgu a chymryd rhan

Yn aml, mae denu dysgwyr cymunedol yn golygu chwalu rhwystrau sy'n ymddangos ymhlith dysgwyr a darparwyr dysg fel:

- Profiad negyddol blaenorol o addysg, diffyg hyder a dyhead
- Teimlo bod cyrsiau yn benodol i ddiwylliant neu ryw
- Dulliau addysgu a chwricwlwm anaddas
- Amser a lleoliad cyrsiau a ffioedd cwrs,

Mae dod â chymunedau i gyswllt â dysgu hefyd yn golygu cydnabod bod gan y cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt adnoddau cyfyngedig a bod adfywio economaidd a datblygiad personol yn mynd law yn llaw. Fe fydd yn bwysig i fudd-ddalwyr drafod manteision cilyddol; gan ystyried:

- Perthnasau pŵer gwahanol rhwng mudiadau a rhwng darparwyr a dysgwyr
- Materion ynghylch grwpiau anodd eu cyrraedd sy'n ynysig yn ddaearyddol neu'n ddiwylliannol
- Cymunedau sy'n aml yn amharod i newid

Dod â chymunedau i gyswllt â dysgu trwy ddatblygu cymunedol

Mae Partneriaeth PGC yn cydnabod y rhyngberthynas gref rhwng dysgu gydol oes, dinasyddiaeth weithgar ac adnewyddu cymunedol ac mae'n credu bod ymagwedd o ddatblygu cymunedol yn helpu hwyluso'r cyswllt gyda dysgu cymunedol (gweler atodiad 2)

O'n profiad ni, mae cymryd rhan mewn dysgu yn gwneud gwahaniaeth positif i gymunedau. Ond, mae datblygu cyfleoedd dysgu hygyrch ac ystyrlon i oedolion sydd heb gymryd rhan yn draddodiadol yn broses gymhleth, sy'n gofyn am fuddsoddiad tymor hir gan amrywiaeth o fudd-ddalwyr. Er mwyn i ddysgu cymunedol effeithiol gymryd lle, fe fydd yn bwysig sicrhau bod pileri ac arferion datblygu cymunedol yn cael eu sefydlu.

Mae ymagweddau Dysgu Cymunedol o'r fath:

- yn rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i bobl; gan eu galluogi nhw i wneud dewisiadau ac i roi sylw i'w problemau a'u hanghenion eu hunain
- yn datblygu sgiliau pobl trwy weithgarwch cymunedol anffurfiol sy'n cael effaith ar y gymuned ehangach
- yn cefnogi nodau datblygu cymunedol, yn codi dyheadau pobl, a pharodrwydd i wirfoddoli a buddsoddi'n bersonol yn eu cymunedau
- yn darparu cyfleoedd i drafod ac i ddylanwadu ar ddatblygiad cwricwlwm sy'n hyblyg ac yn gallu cael ei addasu at eu hanghenion/sefyllfa

Sut i Ddod â Dysgwyr Cymunedol i Gyswllt â Dysgu

Mae dod â chymunedau i gyswllt â dysgu yn 'wyddoniaeth gyfan' ac nid ydyw'n golygu hyrwyddiadau, hysbysebion a digwyddiadau recriwtio yn unig. Rhaid bod amrywiaeth eang o adnoddau mewn lle.

Offerynnau ar gyfer y Swydd

I ddod â chymunedau i gyswllt llwyddiannus â dysgu mae angen offerynnau arnoch, fel:

Gweithwyr cymunedol a gweithwyr datblygu addysg allweddol gyda:

- Dealltwriaeth o'r ardal leol a'r gynulleidfa darged
- Map o'r ddarpariaeth ddysgu gyfredol a gwasanaethau cymorth dysgu
- Sgil mewn datblygu perthnasau, trafod a rhwydweithio

Tiwtoriaid/gweithwyr cymorth dysgwyr medrus gyda 'r

- Gallu i addasu/ymateb i anghenion amrywiol
- Ymagweddau arloesol at dorri rhwystrau a sicrhau dargadwad

Adnoddau Dysgu o Ansawdd fel

- Canolfannau dysgu/adeiladau hygyrch
- Deunyddiau dysgu digonol a hygyrch ac offer fel TGCh
- Cwricwlwm addas sy'n berthnasol i fywydau pobl

Strategaethau i gynnwys dysgwyr yn weithgar ac i roi pŵer iddynt

- Digwyddiadau ymgynghori â dysgwyr, systemau i ddysgwyr adrodd yn ôl, mentoriaid dysgwyr
- Pleidwyr dysgwyr, fforymau dysgwyr, cynrychiolaeth o blith dysgwyr mewn cynllunio

Canllawiau Gam-wrth-Gam:

Ymagweddau Pwysig

Gwaith partneriaeth

Wedi'i seilio yn/arwain gan y Gymuned

Llawr Gwlad/Gwaelod i Fyny

Ymagwedd wedi'i Drafod

Canfod Anghenion ac Ymateb iddynt

Canllawiau Diduedd sy'n Canolbwyntio ar y Person

Dysgu Anffurfiol fel Camau Cyntaf

Mabwysiadu ymagwedd hir dymor/dim chwilio am ddatrysiadau cyflym

Cydnabod ei bod yn cymryd o leiaf 10-15 mlynedd i gymuned dderbyn unrhyw ddatblygiadau newydd yn llwyr

Y Cam Cyn y Datblygu

- Sefydlu eich Grŵp Llywio/Partneriaeth - dod â budd-ddalwyr pwysig i mewn, lleol, rhanbarthol, dibynnu ar anghenion/nodau
- Cytuno ar Strategaeth Ddatblygu - 5 mlynedd/10 mlynedd, gyda ffocws clir ar gynaladwyedd
- Canfod adnoddau datblygu neu sicrhau arian i gychwyn prosiectau newydd - un prosiect neu gyfres o brosiectau cysylltiedig
- Cytuno ar rolau a chyfrifoldebau
- Cytuno ar fudiad(au) arweiniol i reoli materion gweinyddol/ariannol
- Cytuno ar drefniadau monitro, adolygu a gwerthuso
- Penodi/dewis Rheolwr Strategaeth neu Gadeirydd i gefnogi'r bartneriaeth

Camau Cyntaf

- Canfod yr ardal/oedd cymunedol i'w targedu
- Penodi gweithiwr datblygu addysg (mwy os yw'r adnoddau'n caniatáu) fel adnodd cymorth ar gyfer pob ardal gymunedol, gyda'r dasg o wneud y canlynol:
    - Cynnal ymarfer mapio cymunedol manwl, trwy gyswllt personol a rhwydweithio, i nodi adnoddau'r gymuned, y ddarpariaeth dysgu sy'n bodoli yn barod ac asiantaethau cymorth
    - Mynd at bob budd-ddaliwr cymunedol i fapio adnoddau, cyswllt gyda phobl leol, grwpiau cymunedol, mudiadau'r sector gwirfoddol, asiantaethau'r llywodraeth a phob darparwr addysgol cymunedol, addysg bellach ac uwch
    - Adnabod lleoliadau/mudiadau addas sydd â diddordeb mewn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu dysgu cymunedol
    - Cynnal cyfarfodydd cymunedol gyda thrigolion, dysgwyr, gweithwyr cymunedol a grwpiau cymunedol i ymgynghori ar nodau datblygu/dechrau adnabod anghenion
    - Hwyluso datblygiad fforymau cymunedol/grwpiau diddordeb i bleidio anghenion y sectorau gwahanol
    - Helpu sefydlu partneriaeth leol o'r amrywiaeth o grwpiau sy'n weithgar yn y gymuned (gwirfoddol a statudol) i lywio datblygiadau ym mhob ardal gymunedol neu helpu atgyfnerthu grŵp partneriaeth sydd eisoes yn bodoli

- Fe fydd cyfraniad a chefnogaeth arweinwyr cymunedol yn elfen bwysig o'r ymagwedd; mae angen i weithgareddau datblygu fod yn gynhwysol ac wedi eu harwain gan y gymuned ac nid wedi eu harosod gan asiantaethau. Yn ddelfrydol, dylai'r gweithiwr datblygu fod wedi'i seilio yn y gymuned ac wedi'i gefnogi gan fudiad cymunedol allweddol sy'n gallu helpu gyda datblygu ymddiriedaeth y gymuned ehangach a helpu'r gymuned i dderbyn y peth
- Fe fydd yn bwysig peidio ag ail-greu'r olwyn - gweithio gyda mudiadau a mentrau sydd eisoes yn darparu gwasanaethau gwerthfawr 'ar y llawr'

Meithrin Gallu

Galluogi Gweithwyr/Arweinwyr Cymunedol:

- Dod i gyswllt â grwpiau cymunedol ac arweinwyr cymunedol allweddol er mwyn canfod anghenion dysgu
- Darparu adnoddau i ddatblygu cyfleoedd dysgu lleol wedi eu teilwra'n arbennig neu i alluogi mynediad i gyfleoedd dysgu sydd eisoes yn bodoli er mwyn cwrdd ag anghenion o ran meithrin gallu e.e.
    - Cyflwyniad i ddatblygu cymunedol - datblygu sgiliau ymarferol mewn gwaith cymunedol
    - Sgiliau Arweinyddiaeth
    - Sgiliau Busnes a Rheolaeth - TGCh, Cyllid, Nawdd, Cyfrifo
    - Marchnata a Hyrwyddo
    - Gwybodaeth, Cyngor a Chwnsela

Galluogi'r Gymuned Ehangach:

- Cynnal Dadansoddiadau o Anghenion Dysgu'r Gymuned. Efallai y byddai holiadur cymunedol yn gyfyngedig oherwydd nid yw'r rheiny sydd ddim yn cymryd rhan yn debygol o ymateb.

Mae'r ymagweddau sydd orau yn cynnwys:

- Hwyluso grwpiau o bobl leol i ymchwilio i anghenion grwpiau penodol neu ardaloedd daearyddol, wedi eu mentora gan ymchwilydd profiadol. Mae'r ymagwedd hon wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn rhai ardaloedd, gyda phobl leol yn fwy tebygol o gasglu data manwl gywir. Mae hefyd yn golygu manteision sylweddol i'r rheiny sy'n cymryd rhan, o ran mwy o hyder, mwy o fewnbwn gan y gymuned a mwy o gymhelliant i ddilyn cyfleoedd dysgu pellach
- Galluogi grŵp o staff/gwirfoddolwyr i gynnal arolwg ymhlith grwpiau cymunedol, fel cylchoedd ti a fi, clybiau iechyd a ffitrwydd, gan ddefnyddio dulliau arloesol a dulliau sy'n galluogi'r grwpiau i gymryd rhan er mwyn casglu gwybodaeth ar anghenion dysgu. Fe fydd angen hyfforddiant i staff/gwirfoddolwyr i ddatblygu sgiliau arolwg cymunedol a gwaith grŵp. Fe fydd yr ymagwedd hon hefyd yn codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu ymhlith grwpiau cymunedol ac yn datblygu cyswllt cychwynnol ar gyfer datblygu diwrnodau hyfforddiant a chyrsiau blasu wedi eu targedu

- Llunio Cynllun Dysgu Cymunedol (gyda nodau tymor byr a thymor hir) a'i ddosbarthu at fudd-ddalwyr a chyfranogwyr allweddol yn y gwaith ymchwilio ac arolwg er mwyn derbyn sylwadau/dilysu/datblygu

Asesu/Datblygu Strwythur Dysgu Mewnol:

- Cynnal archwiliad o gyfleusterau ac adnoddau dysgu o fewn yr ardal gymunedol, gan weithio gyda budd-ddalwyr pwysig a'r bartneriaeth
- Trafod gyda phartneriaid i gael y mwyaf allan o'r defnydd o adnoddau sydd yno'n barod ar gyfer y strategaeth ddysgu gymunedol leol - pobl, systemau a llefydd
- Cytuno ar gynllun datblygu strwythur dysgu mewnol, os oes angen, a chanolbwyntio'n benodol ar sicrhau bod mynediad da at y cyfleusterau TGCh diweddaraf

Symud Ymlaen/Nodau yn y Tymor Hirach



Canolbwyntio ar gynnal ac atgyfnerthu adnoddau i gydlynu'r grŵp llywio / bartneriaeth a'r gweithiwr / gweithwyr datblygu addysg

- Cytuno ar strategaethau i ddatblygu cyfleoedd dysgu sy'n ymateb i anghenion a ganfuwyd yn y gymuned
- Gweithio trwy'r grŵp partneriaeth lleol i ddatblygu llwybrau mynediad cymunedol perthnasol at ddysgu
- Sicrhau bod y grŵp partneriaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o blith yr holl fudd-ddalwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o blith dysgwyr a'r amrywiaeth o ddarparwyr dysg i gael y mwyaf allan o adnoddau potensial er budd cymunedau lleol
- Datblygu rhwydwaith o ganolfannau dysgu cymunedol croesawgar, hygyrch sydd ag adnoddau da, trwy'r bartneriaeth o ddarparwyr ac adnoddau (ddim wedi eu hadeiladu o'r newydd, o angenrheidrwydd / os oes canolfannau'n bodoli'n barod mae'n well gwella'r hyn sydd eisoes yn gweithio)
- Gweithio ar ddatblygu rhaglen gynhwysfawr o ddysgu cymunedol gyda chanolfannau sy'n cynnig amrywiaeth o destunau a lefelau dysgu trwy amrywiaeth o ddarparwyr

- Sefydlu strategaeth gwybodaeth a marchnata cymunedol cryf a darparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu anffurfiol arloesol, cam cyntaf er mwyn annog pobl i'w cymryd. Yn aml, nid yw pobl yn ymwybodol o gyfleoedd dysgu neu nid oes ganddynt ddigon o hyder, amser neu adnoddau materol i fanteisio arnynt. Mae llawer ohonyn nhw'n gweld dysgu fel rhywbeth ffurfiol ac amherthnasol a rhywbeth y mae grwpiau eraill yn ei wneud. Yn aml, mae dod i gyswllt effeithiol gyda'r rheiny sydd â phrofiadau blaenorol negyddol o ddysgu yn dod â sawl her. Mae cyfleoedd dysgu sy'n canolbwyntio ar sgiliau y mae pobl yn eu gweld ar unwaith fel rhai defnyddiol, fel 'sut i ddefnyddio camera digidol' yn gamau cyntaf poblogaidd - mae pobl yn teimlo'n llai pryderus ynghylch cyfaddef eu bod am ddysgu sgiliau TG
- Cynnwys dysgwyr yn y broses o ddatblygu a rhedeg ymgyrchoedd hyrwyddo. Mae dysgwyr yn y lle gorau i hybu dysgu a denu dysgwyr newydd
- Datblygu llwybrau dilyniant hygyrch at gyfleoedd achrededig mewn addysg bellach ac uwch, yn y tymor hirach, a datblygu strwythurau cymorth academaidd cymunedol perthnasol, fel help i ddatblygu sgiliau astudio. Efallai na fydd yn bosib trosglwyddo'r holl ddysgu mewn lleoliad cymunedol ond fe fydd yn bwysig datblygu gwasanaethau cymorth ar gyfer y dysgwr sy'n seiliedig yn y gymuned er mwyn galluogi dilyniant i mewn i gampws coleg neu brifysgol
- Darparu gwasanaethau arweiniad a gwybodaeth hygyrch i ddysgwyr ar bob cam o'r datblygiad, gan helpu gyda dewisiadau dysgwyr ac opsiynau dilyniant
- Tynnu gwasanaethau cymorth eraill i mewn i bartneriaethau lleol, fel cyngor ar anabledd, budd-daliadau lles a thai. Yn aml, mae rhwystrau at ddysgu yn gyfuniad cymhleth o faterion cymdeithasol, economaidd a phersonol, ac mae angen cymorth sawl asiantaeth. Mae annog gwasanaethau o'r fath i gynnal cymorthfeydd rheolaidd mewn canolfannau dysgu lleol yn gallu bod yn llesol iawn

Gwerthuso

- Adolygwch effeithiolrwydd strategaethau dysgu cymunedol yn rheolaidd
- Fe fydd y math o weithgaredd gwerthuso yn amrywio yn ôl y gweithgaredd penodol sy'n cael ei fesur a'r lefel o effaith y mae'n ei gael - ar unigolion, grwpiau, cymunedau ayb
- Ceisiwch adborth rheolaidd a gwnewch yn siŵr ei fod yn bwydo i mewn i'r prosesau cynllunio a datblygu. Defnyddiwch ymagweddau creadigol fel grwpiau ffocws, gweithdai adolygu neu ddiwrnodau dysgwyr i gasglu gwybodaeth ar gyrsiau a hefyd profiadau ehangach y dysgwyr, er enghraifft datblygiad personol a pha wahaniaeth y mae dysgu wedi ei wneud i unigolion, eu teuluoedd a'u cymunedau
- Gwnewch arolygon amserol ar draws yr ardal gymunedol er mwyn gwerthuso unrhyw effaith cymdeithasol, diwylliannol neu economaidd ehangach. Mae'r ddogfen o'r enw 'Evaluating your Community Development Activities' yn rhoi canllawiau defnyddio ar hyn (Datblygu Cymunedol Cymru 2003)

Hyfforddiant staff

Mae yna faterion cymhleth ynghylch dod â chymunedau i gyswllt â dysgu ac mae gwaith o'r fath angen amrywiaeth eang iawn o sgiliau. Mae'n bwysig iawn, felly, datblygu cyfleoedd hyfforddiant addas yn lleol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr o'r sectorau dysgu cymunedol a datblygu cymunedol. Mae trafodaeth gyda budd-ddalwyr cymunedol a rhwydweithiau darparwyr yn un o agweddau pwysicaf datblygu dysgu cymunedol ac mae llwyddiant unrhyw fenter yn dibynnu ar gydweithio effeithiol a rhannu arbenigedd ac adnoddau. Mae'n llesol galluogi amrywiaeth mor eang â phosib o unigolion a grwpiau i fwydo i mewn i'r broses ddatblygu sgiliau hon ac i elwa ohoni.

Mae'n ddefnyddiol cynnig rhaglenni cychwynnol i staff sy'n datblygu dealltwriaeth o'r gwerthoedd a'r egwyddorion wrth wraidd ymagwedd dysgu cymunedol PPGC. (Gweler Atodiad 1)

Fe fydd rhaglen datblygu proffesiynol parhaus sy'n meithrin ymagwedd creadigol a deinamig at ddatblygu cymunedol hefyd yn llesol.

Ymhellach, fe allai Rhaglenni Datblygu Staff gynnwys hyfforddiant sgiliau mewn:

- ffyrdd o ddod i gyswllt â grwpiau anodd eu cyrraedd
- trefnu gweithgareddau cymunedol anffurfiol i hwyluso'r broses o gymryd rhan mewn dysgu
- technegau marchnata a hyrwyddo ymarferol
- cynllunio strategaethau marchnata i dargedu grwpiau cymunedol penodol
- gwerthfawrogi amrywiaeth a chwrdd ag anghenion dysgwyr, codi ymwybyddiaeth ynghylch materion fel dyslecsia, gwahaniaethau diwylliannol a sicrhau mynediad cyfartal i ddysgwyr gydag anabledd
- cynnal arolygon dysgu cymunedol ac ymarferion mapio
- ymgynghori gyda dysgwyr a datblygu prosesau adborth ar gyfer dysgwyr
- datblygu rhwydweithiau ac adeiladu partneriaethau

Enghreifftiau o Arfer Da:

- 'Cerdded y Strydoedd - gweithio'n rhagweithiol gyda grwpiau cymunedol ac unigolion i godi ymwybyddiaeth ynghylch cyfleoedd dysgu, helpu adnabod a chefnogi nodau dysgu
- Digwyddiadau cymunedol - mae dysgu cymunedol yn gallu bod yn elfen sy'n reidio ar gefn digwyddiadau cymdeithasol neu hamdden e.e. Roedd noson gymdeithasol ar Chwedlau yng Ngweithdy Dove yn tynnu sylw at hanes lleol mewn ffordd hwylus ac, o ganlyniad, cynigiwyd cwrs hanes yn y ganolfan. O ganlyniad i Ddiwrnod Agored Iechyd a Lles yng Nghanolfan Hyfforddi Glyn Nedd, roedd yna alw am gyrsiau newydd mewn garddwriaeth a bwyta'n iach
- Defnyddio'r iaith iawn i farchnata cyrsiau ac addasu cynnwys y cwrs fel ei fod yn berthnasol i ddiddordebau ac anghenion y gymuned - e.e. fe fu Prifysgol Morgannwg yn hysbysebu cwrs Mathemateg rhan amser fel 'Helpu eich plentyn gyda'i waith cartref Mathemateg'

- Pecynnu ymgyrchoedd hyrwyddo cwrs i gysylltu diddordebau grwpiau targed
- Defnyddio Rhwydweithiau - Mae cysylltiadau gyda mudiadau cymunedol a gwasanaethau cymorth fel ymwelwyr iechyd a Chylchoedd Ti a Fi yn gallu bod yn ffyrdd defnyddiol o ddod i gyswllt â rhieni
- Gellir defnyddio digwyddiadau fel cwisiau tafarn a sesiynau cerddoriaeth neu ddawns i dynnu sylw at fanteision a hwyl dysgu cymunedol
- Marchnata trwy waith partneriaeth a chael sôn ym mhrosbectysau pobl eraill
- Cyrsiau blasu, Cyrsiau tamaid, rhoi cyfle i bobl i roi tro ar ddysgu heb ymrwymo yn y tymor hir
- Cynnal arolygon ymhlith tiwtoriaid, dysgwyr, busnesau lleol i ddarganfod pa ddysgu sydd o ddiddordeb/sydd ei angen

- Argymhellion personol gan ddysgwyr
  (Nid oes dim yn well na chlywed gair da am rywbeth)

Mae yna amrywiaeth o ddeunydd adnoddau a gwefannau sy'n gallu rhoi cyngor ac esiamplau arfer da -

- NIACE Dysgu Cymru - Bang the Drum for Learning - pecyn offer i hybu dysgu:// www.niacedc.org.uk

- Mae gan y WCVA - Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru amrywiaeth o daflenni gwybodaeth sy'n rhoi cyngor defnyddiol ar hyrwyddo a chyfathrebu yn y cyfryngau www.wcva.org.uk

Atodiad 1

Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd Gwerthoedd ac Egwyddorion

Mae Partneriaeth PGC wedi ymrwymo i gynhyrchu diwylliant dysgu democrataidd a chynhwysol sy'n seiliedig ar

- gydweithredu
- parch cilyddol ymhlith dysgwyr a thiwtoriaid
- goddefgarwch a dealltwriaeth o wahaniaeth ac amrywiaeth ddiwylliannol
- hybu cyrhaeddiad
- gwerthoedd cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol

Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd dysgu fel profiad cymdeithasol a chyfunol ac rydyn ni felly'n rhannu ymrwymiad at hybu amgylcheddau dysgu lle mae dysgwyr yn cael eu hannog i werthfawrogi a chefnogi ei gilydd. Fe fydd y cymorth hwn yn cynnwys anghenion 'academaidd' ac emosiynol. Mae'n arbennig o bwysig i diwtoriaid gydnabod y sgiliau a'r profiad y mae oedolion sy'n dysgu yn eu cyflwyno i'r amgylchedd dysgu a'r angen i 'ddechrau ble mae'r dysgwyr'

Fe fydd gan ganolfannau dysgu o safon strwythurau i sicrhau bod Dysgwyr yn gallu cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau democrataidd ar faterion fel amseru, cynnwys, arddull dysgu a gweithgareddau 'allgyrsiol'. Fe fydd hefyd yn bwysig datblygu mecanweithiau sy'n galluogi dysgwyr i sicrhau bod darparwyr dysg yn atebol am ansawdd y profiad dysgu. Fe fydd perchnogaeth o'r broses ddysgu yn bwysig iawn i'r rheiny a oedd wedi eu heithrio rhag dysgu.

Dyfyniad allan o 'Anelu'n Uwch - Arfer Da mewn Dysgu Cymunedol' Ar gael o http://www.cuv.org.uk/gpguides.htm

Atodiad 2

Gwerthoedd ac Egwyddorion wrth wraidd Ymagwedd o Ddatblygu Cymunedol:

- Ymrwymiad at ddatblygu cymunedol fel proses sy'n rhyddhau'r dysgwr, gan ddarparu datblygiad grŵp a phersonol trwy ddysgu, adfyfyrio, gwerthuso a hunan-herio
- Mae'n hwyluso ac yn helpu pobl sy'n cydweithio i ddylanwadu ar newid ac i reoli'r materion amgylcheddol, economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol sy'n effeithio ar eu bywydau
- Mabwysiadu prosesau a strwythurau cyfranogol sy'n cynnwys ac yn rhoi pŵer i grwpiau sydd wedi eu heithrio ac sydd ar yr ymylon yn y gymdeithas
- Hybu gwaith datblygu cymunedol gwrth-orthrymgar, gwrth rhywiol a gwrth hiliol gyda phwyslais ar gynnwys grwpiau sydd ar y cyrion
- Hybu hunanddatblygiad a hunan-benderfyniad grwpiau cymunedol
- Hybu datblygiad cynaliadwy ar sail gwerthoedd ac egwyddorion datblygu cymunedol
- Herio rhagfarn a gwahaniaethu ar sail hil, ethnigrwydd, rhyw, rhywioldeb, dosbarth, statws cymdeithasol ac economaidd, oed, anabledd, statws iechyd, diwylliant, iaith neu grefydd
- Herio perthnasau pŵer anghytbwys o fewn y gymdeithas a hybu ailddosbarthiad pŵer, cyfoeth ac adnoddau. Creu cymdeithas fwy cyfiawn a chytbwys trwy hybu agenda polisi sy'n deillio o brofiad a gweithredu lleol

- Cymryd rhan mewn prosesau gwleidyddol i ddylanwadu ar bolisïau ac arferion y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n gysylltiedig â datblygu cymunedol

- Meithrin ymagwedd greadigol a deinamig at ddatblygu cymunedol, sy'n agored ac yn cefnogi arloesedd a chydweithredu rhwng mudiadau, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol

Dyfyniad o wefan Datblygu Cymunedol Cymru http://www.cdc.cymru.org (yn Gwybodaeth DCC/Egwyddorion a Gwerthoedd)

Partneriaeth Prifysgol Gynumedol y Cymoedd

Datganiad o Genhadaeth

Rydym yn cadarnhau ein hymrwymiad i:

i) ddyfeisio strategaethau addysg uwch a fydd yn ein cynorthwyo i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag eithrio ac amddifadiad gan gefnogi adfywio diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd cymunedau ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

ii) darparu rhaglenni dysgu arloesol a strwythurau cyfarwyddo cefnogol i dargedu'r rhai sy'n cael eu heithrio ar hyn o bryd a lledaenu a chynyddu mynediad i ddysgu gan unigolion a grwpiau na fuont yn cymryd rhan cyn hyn

iii) cefnogi dilyniant i addysg uwch drwy ddatblygu cyfleoedd dysgu wedi'u seilio ar y diffiniad ehangaf o ddysgu gydol oes - dysgu anffurfiol, rhaglenni heb eu hachredu ac wedi'u hachredu

iv) dod i gytundeb ar gydnabod cyflawniadau a chredydau ein gilydd

v) adnabod a hyrwyddo modelau o arfer da sy'n pwysleisio dysgu ar y cyd a myfyriwr-ganolog wedi'u seilio yn y gymuned a lledaenu ein profiadau o bartneriaeth mewn dysgu wedi'i seilio ar y gymuned

vi) datblygu strwythurau a fydd yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr a chymunedau gymryd rhan fel partneriaid cydradd, i drafod cwricwlwm sy'n addas i'w hanghenion ac i ddylanwadu ar ddatblygu rhaglenni dysgu a gwasanaethau cefnogi addas

vii) rhoi statws cyfartal a pharch i'r holl gynrychiolwyr o fewn y bartneriaeth a chydnabod pwysigrwydd grwpiau cymunedol nad ydynt wedi'u cynrychioli'n uniongyrchol

viii) cefnogi rhagoriaeth mewn ymchwil i ddysgu a chymunedau, er mwyn cyfrannu at ddatblygiadau partneriaeth

ix) gwneud y defnydd gorau posib o adnoddau priodol ar draws y bartneriaeth, drwy strategaethau fel ceisiadau ar y cyd am gyllid, i ddatblygu rhaglenni dysgu integredig ac arloesol

x) sicrhau bod yr holl bartneriaid yn cyfathrebu â'i gilydd ac yn parchu gweithgareddau ei gilydd i gynyddu'r ymwneud ar draws y bartneriaeth gymaint â phosib

xi) sicrhau bod holl weithgareddau'r bartneriaeth yn glynu at egwyddorion cyfleoedd cyfartal